Polisi Gallu i Ymgymryd ag Astudiaeth/Hyfforddiant Athrofa Padarn Sant

ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	**Polisi Gallu i Ymgymryd ag Astudiaeth/Hyfforddiant Athrofa Padarn Sant**
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Kathryn Delderfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Athrofa Padarn Sant
Rhif y fersiwn:	2
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd
Dyddiad cymeradwyo:	18 Gorffennaf 2022
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Athrofa Padarn Sant
Dyddiad rhoi mewn grym:	Gorffenaf 2022
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2025
Y fersiwn a ddisodlir:	1
Dogfennau cysylltiedig:	Cod Ymddygiad Athrofa Padarn Sant Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant Polisi Disgyblu Athrofa Padarn Sant Llawlyfr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth (i ymgeiswyr)

Hanes y ddogfen

Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar yr adolygiadau
1	Gorffennaf 2019	Kathryn Delderfield	

2	Gorffennaf 2022	Kathryn Delderfield	• Ychwanegwyd dogfennau perthnasol

Polisi Gallu i Ymgymryd ag Astudiaeth/Hyfforddiant Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Lefel 1: Cynllun Llesiant
4. Lefel 2: Bwrdd Llesiant
5. Cyfrinachedd

2. Cyflwyniad

Mae Padarn Sant wedi ymrwymo i gefnogi llesiant dysgwyr, mae'n rhoi agwedd gadarnhaol ar waith o ran iechyd meddwl, emosiynol a chorfforol dysgwyr, ac mae'n cydnabod bod llesiant dysgwyr yn hollbwysig i'w dysgu, eu llwyddiant academaidd a'u profiad ehangach o fod yn ddysgwyr. Nod Padarn Sant yw darparu amgylchedd dysgu cefnogol lle y gall pob dysgwr ffynnu a chyflawni'i botensial personol. Caiff dysgwyr sy'n bryderus ynghylch dirywiad yn eu hiechyd a'u llesiant eu hannog i gysylltu â'r tiwtor perthnasol.

Yn aml, gellir ymdrin â phryderon ynghylch llesiant dysgwyr trwy gyfrwng y gofal bugeiliol arferol a gynigir gan Badarn Sant. Gall Gweithdrefnau Gallu i Ymgymryd ag Astudiaeth / Hyfforddiant eu rhoi ar waith pan geir pryderon difrifol ynghylch gallu dysgwr i fynd i'r afael ag astudiaeth / hyfforddiant ar ôl rhoi cymorth rhesymol iddo. Efallai y bydd cwestiynau ynghylch gallu dysgwr i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant yn cael eu gofyn ar sail ei iechyd meddwl, emosiynol neu gorfforol. Efallai y bydd y gweithdrefnau a nodir yma'n cael eu rhoi ar waith yn dilyn pryder difrifol, sydd wedi arwain at y canlynol: amheuon gan aelod(au) staff ynghylch gallu'r dysgwr i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant (yn cynnwys cyfranogi mewn lleoliad fel rhan o'i astudiaeth / hyfforddiant); amharu ar addysgu, dysgu neu gymorth dysgwyr eraill.

Mae'n debygol y bydd gweithdrefnau Gallu i Ymgymryd ag Astudiaeth / Hyfforddiant yn cael eu rhoi ar waith yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Os ceir dirywiad cynyddol neu sydyn ym mhresenoldeb, sylw, ansawdd gwaith, ymddangosiad neu ymddygiad dysgwr.
- Os yw'r modd y mae dysgwr yn cymryd rhan yn ei astudiaethau'n methu ag arwain at gynnydd yn ei astudiaeth neu ei ymchwil, ac os credir bod y rheswm sydd wrth wraidd hyn yn gysylltiedig â'i allu i ymgymryd ag astudiaeth/hyfforddiant.
- Os yw anghenion cymorth dysgwr wedi mynd y tu hwnt i'r math o gymorth neu lefel y cymorth y gellir disgwyl i Badarn Sant eu darparu'n rhesymol.
- Os yw ymddygiad dysgwr yn cael effaith andwyol ar weithgareddau Padarn Sant neu ddarparwr lleoliad, ac os credir bod hyn yn digwydd o ganlyniad i broblem iechyd meddwl, emosiynol neu gorfforol sylfaenol.
- Os ystyrir y gall fod yn risg i'w iechyd, ei ddiogelwch neu ei lesiant ei hun (neu eraill).
- Os yw ymddygiad dysgwr yn cael effaith andwyol ar addysgu, dysgu a/neu brofiad dysgwyr eraill, ac os credir bod hynny o ganlyniad i broblem iechyd meddwl, emosiynol neu gorfforol sylfaenol.
- Os yw ymddygiad dysgwr yn cael effaith sylweddol ar amgylchedd gweithio staff neu wirfoddolwyr, ac os credir bod hynny o ganlyniad i broblem iechyd meddwl neu gorfforol sylfaenol.
- Os yw dysgwr yn gwrthod ymhél dro ar ôl tro â'r strategaethau y cytunwyd arnynt i reoli effaith ei gyflwr iechyd neu, yn achos ymgeiswyr am Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig, ei ddatblygiad ffurfiannol.

Bwriad y polisi hwn yw cefnogi yn hytrach na disgyblu. Gan ddibynnu ar ganlyniad ymchwiliad i allu dysgwr i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant, mae'n bosibl y bydd gweithdrefnau disgyblu'n cael eu rhoi ar waith; ond pan geir pryderon ynghylch gallu'r dysgwr i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant, dylid ymchwilio i'r rhain yn gyntaf. Efallai fod ymddygiad dysgwr wedi peri i ddysgwr arall neu aelod o staff gyflwyno cwyn ffurfiol. Os bydd y sawl sy'n ymchwilio i'r gŵyn honno o'r farn y gallai ymddygiad y dysgwr fod o ganlyniad i ddiffyg gallu i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant, yna dylai danio'r gweithdrefnau gallu i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant gael ei hystyried. Os ceir cwyn yn erbyn dysgwr sydd eisoes yn mynd trwy weithdrefn gallu i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant, yna efallai y bydd angen gohirio'r broses

gwyno. Pe bai'r broses gwyno'n cael ei gohirio, rhaid rhoi gwybod i'r sawl sydd wedi cyflwyno'r gŵyn ynglŷn â'r oedi.

Gall dysgwr arall neu aelod o staff fynegi pryderon ynghylch gallu dysgwr i ymgymryd ag astudiaeth / hyfforddiant. Dylid mynegi'r pryderon hyn wrth y Pennaeth, neu gynrychiolydd dynodedig y Pennaeth yn ei absenoldeb. Mae dwy lefel yn perthyn i'r weithdrefn hon, yn seiliedig ar ddifrifoldeb y risg sy'n deillio o'r sefyllfa. Mae'r lefelau'n adlewyrchu lefel yr anhawster neu'r amharu, yn ogystal ag ymateb y dysgwr i unrhyw ymyriad. Efallai y bydd pryderon a fynegir ynghylch iechyd, diogelwch, ymddygiad neu les meddyliol dysgwr mor sylweddol nes peri i'r gweithdrefnau gychwyn ar Lefel 1 neu 2. Pe bai dysgwr yn amharod i gymryd rhan yn y gweithdrefnau hyn, yna dylid parhau â'r broses yn ei absenoldeb, gyda'r posibilrwydd o allu gohirio'r astudiaethau yn y pen draw. Bydd y Pennaeth yn penderfynu os ddylai ac ar ba lefel y dylid cychwyn y gweithdrefnau, gan ymgynghori â staff perthnasol pan fo hynny'n briodol.

3. Lefel 1: Cynllun Llesiant

Rhoddir y lefel hon ar waith pan fynegir pryderon parhaus neu ddifrifol ynghylch iechyd, diogelwch, ymddygiad neu les meddyliol dysgwr, i'r graddau y gellir effeithio ar ei allu i lwyddo yn ei astudiaethau. Bydd y dysgwr yn cael gwahoddiad i gyfarfod â'i diwtor ac aelod arall o staff i drafod y materion. Gyda'i gilydd, gallant asesu barn y dysgwr ynglŷn ag effaith ei salwch a/neu ei ymddygiad ar y dysgwr, ar ei astudiaethau a/neu ar gymuned Padarn Sant. Mae gan y dysgwr hawl i gael tiwtor neu ddysgwr arall gydag ef i fod yn gefn iddo, pe bai'n dymuno. Pe bai'r dysgwr yn gofyn am gael rhywun ac eithrio tiwtor neu ddysgwr arall gydag ef, dylai ofyn caniatâd y tiwtor sydd wedi galw'r cyfarfod.

Pan fo'n briodol, caiff Cynllun Llesiant ei lunio er mwyn cynnig cymorth i'r dysgwr a chytuno'n ffurfiol ar y pethau y disgwylir i'r dysgwr gadw atynt. Efallai y bydd y Cynllun Llesiant yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau, yn cynnwys egluro disgwyliadau'n ymwneud ag ymddygiad, ac annog y dysgwr i wneud defnydd o wasanaethau caplaniaeth, cwnsela neu feddygol (neu fynnu ei fod yn gwneud hynny). Bydd yn nodi dyddiad adolygu, a hefyd bydd y canlyniadau o beidio â chadw at y Cynllun Llesiant yn cael eu nodi'n glir. Bydd copi o'r Cynllun Llesiant yn cael ei anfon at y dysgwr a bydd copi'n cael ei gadw ar ffeil y dysgwr. Efallai y bydd yn briodol i aelod arall o staff gael copi o'r cynllun hefyd (fel y Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol I'r Weinidogaeth,

Esgob neu Gyfarwyddwr Ffurfiant yn achos ymgeiswyr). Bydd y dysgwr yn cael gwybod pwy fydd yn gweld yr adroddiad.

Pe na bai'r dysgwr yn cadw at y cynllun, neu pe bai pryderon difrifol i'w cael o hyd adeg cynnal yr adolygiad er i'r dysgwr gadw at y cynllun, dylid ymdrin â'r mater ar Lefel 2.

4. Lefel 2: Bwrdd Llesiant

Rhoddir y cam hwn ar waith pan gaiff pryderon sylweddol neu barhaus eu mynegi ynghylch camau neu ymddygiad dysgwr unigol – sef camau neu ymddygiad sy'n rhoi ei iechyd, ei ddiogelwch, ei lesiant neu ei gynnydd academaidd ef neu aelodau eraill cymuned Padarn Sant yn y fantol, neu pan fo cynllun blaenorol wedi bod yn aflwyddiannus. Bydd y Pennaeth yn penodi Bwrdd Llesiant, a fydd yn cyfarfod â'r dysgwr. Gall y Bwrdd gynnwys staff perthnasol, pobl allanol a chanddynt brofiad perthnasol neu wybodaeth arbenigol, fel gweithiwr iechyd proffesiynol neu rywun â chyfrifoldeb gweinidogaethol. Bydd cyfansoddiad y Bwrdd yn dibynnu ar gategori'r dysgwr, ei leoliad ac amgylchiadau penodol ei achos. Bydd y Pennaeth yn penodi aelod o'r Bwrdd i weithredu fel Cadeirydd. Gall dysgwr arall, aelod o staff, neu gynrychiolydd y bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cytuno arno, fynd gyda'r dysgwr i'r cyfarfod Bwrdd.

Bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fel y bo'n briodol mewn perthynas â'r broses ac o ran cyfathrebu'r canlyniad i ddysgwyr a chanddynt anableddau neu broblemau iechyd eraill. Pan na fo dysgwyr wedi datgan anabledd yn ffurfiol i Badarn Sant cyn i weithdrefnau ffurfiol gael eu rhoi ar waith, fe'u cynghorir i wneud datganiad o'r fath cyn gynted ag y bo modd yn ystod y broses ffurfiol, er mwyn i addasiadau rhesymol gael eu gwneud fel y bo'n briodol. Gall prosesau ffurfiol gael eu gohirio hyd nes y bydd addasiadau rhesymol wedi'u rhoi ar waith. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan nad oes modd i ddysgwr ei gynrychioli ei hun, ac os nad yw'n briodol gohirio'r broses ffurfiol hyd nes y bo hynny'n bosibl, efallai y caiff cynrychiolydd ei benodi. Pan fo'n briodol, bydd angen cyflwyno cais ysgrifenedig i Gadeirydd y Bwrdd. Bydd angen ystyried tystiolaeth annibynnol fel rhan o'r cais hwn. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd y Bwrdd yn bwrw ymlaen heb i'r dysgwr dan sylw neu ei gynrychiolydd fod yn bresennol.

Rhaid gwneud nodiadau yn ystod cyfarfod y Bwrdd.

Bydd y Bwrdd Llesiant naill ai'n:

- penderfynu nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach
- creu Cynllun Llesiant newydd (fel uchod)
- gohirio astudiaeth/hyfforddiant y dysgwr
- argymell i'r Pennaeth y dylid dirwyn yr astudiaethau i ben.

Os bydd y Bwrdd Llesiant yn argymell gohirio'r astudiaethau, bydd y Cadeirydd yn gwahardd y dysgwr yn syth. Bydd y dysgwr yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig.

Os bydd y dysgwr yn dymuno apelio yn erbyn canlyniad y Bwrdd Llesiant, rhaid iddo ysgrifennu at y Pennaeth o **fewn 10 diwrnod gwaith** o dderbyn y llythyr. Ar ôl derbyn yr apêl, bydd y Pennaeth yn ateb y dysgwr o **fewn 10 diwrnod gwaith.**

O safbwynt unrhyw achos o ohirio astudiaethau, rhaid i'r Bwrdd Llesiant gynnal adolygiad cyfnodol yng ngoleuni unrhyw ddatblygiadau, gan gyflwyno adroddiadau i'r Pennaeth fel y bo'n briodol. Bydd adolygiad cyfnodol o'r fath yn cynnwys ystyried tystiolaeth feddygol a chyngor academaidd gan staff perthnasol. Bydd angen hysbysu'r Cofrestrydd ac ymgynghori ag ef ynglŷn â'r effaith a gaiff hyn ar y rhai sy'n ymgymryd ag astudiaeth/hyfforddiant achrededig.

Os bydd y Bwrdd Llesiant yn argymell y dylid dirwyn yr astudiaethau i ben, bydd y dysgwr yn cael ei wahardd dros dro, a hynny'n syth. Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cyfeirio'r mater at y Pennaeth, a'r Pennaeth a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol, gan ymgynghori fel bo'r angen. Bydd y dysgwr yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o **fewn 10 diwrnod gwaith** ynglŷn â'r gwaharddiad dros dro.

Os bydd y dysgwr yn dymuno apelio yn erbyn y penderfyniad i ddirwyn ei astudiaethau i ben, gall wneud hynny trwy gysylltu'n ysgrifenedig â Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol o **fewn 10 diwrnod gwaith** o dderbyn llythyr yn cadarnhau y bydd ei astudiaethau'n cael eu dirwyn i ben. Bydd penderfyniad Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol (ar ôl ymgynghori â barn arbenigwyr pan fo hynny'n berthnasol) yn derfynol, ac eithrio yn achos dysgwyr sydd ar gyrsiau a achredir gan Sefydliad arall, lle y ceir polisi sy'n caniatáu iddynt apelio'n uniongyrchol i'r Sefydliad hwnnw.

5. Cyfrinachedd

Fe fydd Athrofa Padarn Sant yn ystyriol o natur sensitif a chyfrinachol y materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a/neu gorfforol dysgwyr a'i rhwymedigaethau mewn perthynas â hyn dan reoliadau diogelu data a Deddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd yr holl bartïon yn cael eu hatgoffa o'r cyfrinachedd sy'n gysylltiedig â'r gweithdrefnau a nodir uchod. Bydd gwybodaeth ynglŷn â'r achos yn cael ei datgelu i gyn lleied o bobl ag y bo modd.